| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **23 TACHWEDD 2009** |
| **PWNC** | **CEISIADAU AM OLLYNGIADAU.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |
| **GWEITHREDIAD** | **PENDERFYNU AR Y CEISIADAU.** |

**CEFNDIR.**

1. Mae gan y Pwyllgor Safonau yr hawl i dynnu'r cyfyngiadau a osodir ar gynghorwyr dan y côd ymddygiad drwy roi gollyngiad iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau a/neu pleidleisio. Mae paragraff 2 o reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatau Gollyngiadau) (Cymru) 2001 yn gosod yr amgylchiadau lle gellir rhoi gollyngiad ac atodir copi fel Atodiad '1'.

2. Hyd at ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad hwn derbyniwyd dau gais gan aelodau am ollyngiadau mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion cynradd. Mae'r ddau gais yn berthnasol i'r adolygiad ysgolion cynradd yn nhlagylch Ysgol y Berwyn (Y Bala) Fe'u rhestrir yn y tabl isod ac atodir copiau o'r ceisiadau fel Atodiad 2. Os derbynnir ceisiadau pellach fe'u cyflwynir yng nghyfarfod y pwyllgor.

| AELOD | NATUR Y BUDDIANT. |
|---|---|
| Elwyn Edwards | • Plant ei ferch yn mynychu Ysgol Bro Tegid, y Bala |
| Dylan Edwards | • Gwraig yn dysgu mewn nifer o ysgolion dalgylch Ysgol y Berwyn<br>• Mab yn ddisgybl yn Ysgol y Berwyn<br>• plant ei frawd yn ddisgyblion yn Ysgol y Berwyn a Llanuwchllyn<br>• Neiaint yn ddisgyblion yn Ysgol Bro Tegid. |

3. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ceisiadau am ollyngiadau mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion cynradd ar fwy nag un achlysur o'r blaen. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2008 penderfynodd y pwyllgor ar y canllawiau a ganlyn :-

   *"Cytunwyd y byddai gosod canllawiau i'w dilyn wrth ystyried ceisiadau yn gysylltiedig â'r cynllun trefniadaeth ysgolion o gymorth i ystyried pob cais ar ei haeddiant ac i fod yn gyson wrth wneud penderfyniadau.*

   *Yn sgil hyn, penderfynwyd y byddai gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiadau rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r Cyngor gael hyder yn y modd y gwneid y*

*penderfyniadau."*

**DATBLYGIADAU HYD YMA.**

4. Mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn ar yr 2[il] o Ebrill, 2009 mabwysiadwyd strategaeth ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd y sir. Sail y strategaeth yw adolygu dyfodol ysgolion cynradd o fewn dalgylchoedd penodol gan roi sylw i nifer o egwyddorion a ffactorau penodol. Bydd y broses adolygu dalgylchoedd yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r opsiynau ar gyfer y dalgylch ac yn gwneud hynny mewn dull cynhwysol drwy dynnu at ei gilydd banel adolygu. Bwriedir i'r panel adolygu gynnwys pob aelod etholedig lleol, penaethiaid ysgolion a chadeiryddion llywodraethwyr, cynrychiolaeth eglwysig a'r arweinydd portffolio. Yn dilyn y broses adolygu bydd yr arweinydd portffolio wedyn yn llunio cynigion ar gyfer bob dalgylch yn ei thro a bydd yn cael ei chefnogi yn y gwaith gan banel ymgynghorol sirol, sef 6 aelod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

5. Penderfynwyd mai'r dalgylchoedd cyntaf i'w hadolygu fyddai Tywyn, Y Berwyn a'r Gader.

**Y CÔD YMDDYGIAD.**

6. Dan y Côd Ymddygiad ni chaiff aelod etholedig gymryd rhan mewn trafodaeth mewn unrhyw gyfarfod lle mae aelodau neu swyddogion o'r awdurdod yn bresennol os yw'r busnes i'w drafod yn debyg o effeithio ar les neu sefyllfa ariannol person y mae ganddo gysylltiad agos ac ef/hi, a bod natur y buddiant yn un fyddai'n arwain aelod o'r cyhoedd i gredu na allai'r aelod etholedig gael rhan ddiduedd yn y drafodaeth.

7. O ddefnyddio'r meini prawf hyn, mae'r aelodau yn dod i'r casgliad na allent gymryd rhan mewn trafodaethau yn y Panel Adolygu Dalgylch os yw hynny'n debyg o effeithio ar yr ysgolion y mae eu plant neu eu cymar yn gysylltiedig â hwy.

**Y CEISIADAU.**

8. Mae'r aelodau yn gwneud y cais ar y sail ei bod yn bwysig iddynt fel aelodau lleol gyfrannu at y trafodaethau yn lleol, a bod y trafodaethau, oherwydd eu bod yn cael eu cynnal ar sail dalgylch yn debyg o effeithio rhagor o ysgolion na'r un y mae ganddynt gysylltiad â hi, h.y. nid trafodaeth benodol ar un ysgol yn unig ond trafodaeth ar holl ysgolion y dalgylch a gynhelir, ac ni ellir gwahanu y naill oddi wrth y llall.

**ARGYMHELLIAD.**

9. Gall y Pwyllgor wneud un o 3 peth :-

   (a) Gwrthod y ceisiadau.
   (b) Caniatau y ceisiadau yn llawn, h.y. i drafod ac i bleidleisio.
   (c) Caniatau gollyngiad yn rhannol, e.e. i gymryd rhan mewn trafodaeth ond nid i bleidleisio.

10. Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau ystyried y ceisiadau a phenderfynu arnynt.

**Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**

**2.** Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.